# Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Agenda SJR(2) –12-06(p4)

**Dyddiad: Dydd Iau 21 Medi 2006**
**Amser: 9.30am – 12.30pm**
**Lleoliad: Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

## Teitl: Hynt y Broses o Weithredu Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan

### Diben

1. Gofynnir i aelodau'r pwyllgor nodi'r hyn a wnaed o ran gweithredu Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan ers ei chyhoeddi yn 2004. Mae hyn yn cynnwys adroddiad cynnydd 2005-06 ynghyd ? hynigion ar gyfer 2006-07.

### Crynodeb

2. Mae Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan yn cynnwys nifer o dargedau ac amcanion sy'n gysylltiedig ag atal a gostwng troseddau gan bobl ifanc yng Nghymru. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r hyn a wnaed o ran cyrraedd yr amcanion y cytunwyd arnynt ar gyfer 2005-06; nodi'r amcanion a'r targedau y cytunais innau arnynt yn ddiweddar ar gyfer 2006-07, a chefnogi gwaith y grwp yn y dyfodol.

### Y Cefndir

3. Dyma'r drydedd blwyddyn ers i Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan fod mewn bodolaeth. Cyhoeddwyd y Strategaeth yn 2004, ac mae'n ffrwyth cydweithio gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr ac asiantaethau lleol i ddatblygu fframwaith cenedlaethol i atal troseddu ac ail-droseddu ymysg plant a phobl ifanc yng Nghymru.

4. Ers dechrau'r strategaeth, mae'r Grwp Gweithredu arbenigol a sefydlwyd gennyf wedi cyd-gysylltu a datblygu ystod o dargedau ac amcanion pwysig o flwyddyn i flwyddyn, gyda'r nod o ddatblygu cynlluniau gweithredu blynyddol ar gyfer gostwng troseddau gan bobl ifanc a monitro hynt y cynlluniau hyn.

5. Mae gwaith y Grwp Gweithredu wedi rhoi'r cyfle i bob rhanddeiliad sy'n rhan o'r system Cyfiawnder Ieuenctid chwarae rhan o bwys wrth sicrhau bod egwyddorion y strategaeth yn cael eu gweithredu fwyfwy ledled Cymru, ac ym mhob maes sy'n berthnasol i droseddau ieuenctid, gan gynnwys tai, addysg, iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf a hyfforddiant a chyflogaeth.

6. Mae cyd-gysylltu agos rhwng y gwahanol adrannau o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru, asiantaethau lleol a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid hefyd wedi rhoi'r cyfle i fonitro’r targedau a’r amcanion a bennwyd yn fwy effeithiol, sydd yn ei dro yn golygu bod y broses o atal troseddu ac ailsefydlu troseddwyr ifanc yn fwy effeithiol.

7. Mae'r monitro parhaus gan y grwp ers 2004 wedi arwain at ddatblygiadau positif, gwelliant graddol a chyfradd uchel o lwyddiant ym mhob maes.

8. Mae'r tabl yn Atodiad A yn dangos yn glir i'r mwyafrif llethol o amcanion a thargedau ar gyfer 2005-06 gael eu bodloni'n llawn. Bu llwyddiannau pwysig ar draws y sbectrwm cyfan o feysydd gwasanaeth sy'n berthnasol i ostwng ac atal troseddau ieuenctid. Mae rhai o'r rhain yn cynnwys:-

Ym maes addysg, dechreuwyd prosiect peilot i roi cymorth personol i bobl ifanc yn y carchar, ac mae'r arwyddion cychwynnol yn dangos bod hwn yn brosiect llwyddiannus.

Cynhyrchwyd Modiwl ar gyfer Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau Cymru, sy’n mynd i'r afael ?ysgu am gamddefnyddio sylweddau, atal hyn, a gwasanaethau trin ar gyfer plant a phobl ifanc.

Lluniodd NACRO adroddiad gwerthfawr yn ystod y flwyddyn ar anghenion llety troseddwyr ifanc, a fydd yn rhoi'r sylfaen ar gyfer gweithredu ymhellach ar hyn.

Pennwyd targedau clir iawn gan y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru ar gyfer cael cysylltiad effeithiol rhwng timau troseddau ieuenctid ac mae pob un o'r rhain wedi eu bodloni.

Cafwyd gwaith da gan Sgiliau er Cyfiawnder yn ystod y flwyddyn ar gynyddu'r defnydd o gymwysterau galwedigaethol addas ymysg gweithwyr ym maes cyfiawnder ieuenctid.

Cafwyd sicrwydd gan yr heddlu bod holl argymhellion ymchwiliad Victoria Climbie wedi eu gweithredu ledled Cymru erbyn 31 Mawrth 2006.

9. Ar gyfer 2006-07, mae'r grwp wedi mabwysiadu agwedd wahanol i ddiffinio targedau ac amcanion trwy ddefnyddio them?trawsbynciol megis atal troseddau gan bobl ifanc a lles pobl ifanc. Rwyf wedi derbyn y cynigion manwl a gyflwynwyd i mi gan y Grwp ac sydd wedi eu rhestru yn Atodiad B. Rwy'n credu eu bod yn cynnwys cyfres o amcanion call a heriol, a allai wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'n hymdrechion parhaus i ostwng lefel y troseddau gan bobl ifanc yng Nghymru. Mae’r enghreifftiau'n cynnwys:

Sefydlu Strategaeth Atal Cymru Gyfan. Bydd yn bosib i hon gyfuno gwaith nifer o asiantaethau yng Nghymru. Bydd yn hybu’r broses o nodi amcanion ar y cyd; datblygu proses mesur perfformiad ar y cyd; ac yn hwyluso gwell cyd-gysylltu o ran cyllid.

Bydd yr Heddlu ac Awdurdodau Addysg yn cymryd camau breision pellach i hybu Rhaglen Ysgolion Cymru Gyfan yn ei hymdrechion i atal ein pobl ifanc rhag camddefnyddio sylweddau.

Bydd fy swyddogion yn cydweithio gyda'r Cynghorau Celfyddydau a Chwaraeon i ddatblygu mwy o gysylltiadau rhwng y meysydd hyn ac atal troseddu.

Bydd yr Adran Addysg yn datblygu'r Prosiect Dysgu Troseddwyr Ifanc mewn nifer o ffyrdd sylweddol.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Dai wedi ymrwymo i nifer o fentrau o bwys, gan gynnwys gostwng y defnydd o lety gwely a brecwast i droseddwyr ifanc sydd wedi'u rhyddhau.

Mae gan Sgiliau er Cyfiawnder dargedau pendant ychwanegol ar gyfer datblyg cymwysterau galwedigaethol ar gyfer gweithwyr cyfiawnder ieuenctid.

## Goblygiadau Ariannol

10. Mae'r holl amcanion a'r targedau ar gyfer 2005-06 a 2006-07 sydd wedi eu rhestru yn Atodiadau A a B yn cael eu bodloni, neu fe fyddant yn cael eu bodloni o fewn Rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad sy'n bodoli eisoes, neu raglenni presennol asiantaethau sy'n bartneriaid. Nid yw’r un o'r amcanion newydd ar gyfer 2006-07 yn cynnwys unrhyw ymrwymiad i wariant newydd gan y Cynulliad, ac eithro'r targed Ystad Diogel. Yn yr achos hwn mae'r Prif Weinidog wedi neilltuo cyllid o dan geisiadau cyfalaf Cylch Cynllunio'r Gyllideb.

## Cydymffurfio

11. Nid oes unrhyw faterion sy'n ymwneud ?hydymffurfio yn gysylltiedig ? papur hwn.

## Camau i'w Cymryd gan y Pwyllgor

12. Nodi gwaith Grwp Gweithredu Strategaeth Troseddau Ieuenctid Cymru Gyfan a'r hyn a wnaed o ran cyflawni'r targedau ar gyfer 2005-06 yn Atodiad A; a nodi'r cynigion o ran targedau ac amcanion a bennwyd gan y Grwp Gweithredu ar gyfer 2006-07 yn Atodiad B.

**Mrs Edwina Hart**
**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**
**Pwynt Cyswllt: Peter Jones, Yr Uned Diogelwch Cymunedol, Est:5512**